

CYNLLUN STRATEGOL



FFORWM 50+ SIR GAERFYRDDIN

CYNLLUN STRATEGOL

Rhagarweiniad

Diben y ddogfen strategol hon yw rhoi cyfeiriad a fframwaith clir ar gyfer y Fforwm 50+ er mwyn gallu cyflawni'r Diben a'r Amcanion y cytunwyd arnynt a nodwyd yn y Cyfansoddiad.

Mae cynllun gweithredu ar wahân yn cefnogi'r ddogfen hon ac yn cynnwys manylion er mwyn helpu i'w rhoi ar waith.

Bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol a'i diwygio i sicrhau ei bod yn berthnasol o ran yr anghenion a'r blaenoriaethau newidiol a nodwyd.

Ein Pwrpas a'n Cenhadaeth

- Rhoi llais unedig i bobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin.
- Hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yn y sir
- Nodi bylchau o ran darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn
- Gweithio gydag eraill i lenwi'r bylchau hyn o ran darparu gwasanaethau
- Herio darparwyr gwasanaethau a sicrhau eu bod yn atebol

Ein Gweledigaeth - erbyn 2020 byddwn ...

- Yn cael ein hadnabod fel y llais awdurdodol ar gyfer pobl hŷn yn y sir
- Yn meddu ar weledigaeth glir a rennir ynghylch sut y mae pethau'n argoeli ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol
- Wedi dylanwadu ar flaenoriaethau polisi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn gwella gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn

Ein Gwerthoedd

- Bydd ein gwerthoedd a'n credoau yn adlewyrchu rhai ein Haelodaeth a rhai'r Comisiynydd Pobl Hŷn (fel y mynegwyd yn y Strategaeth Heneiddio'n Dda yng Nghymru)
- Bydd ein gwerthoedd a'n credoau hefyd yn adlewyrchu'r rhai a gynhwyswyd yn Siarter Pobl Hŷn y Cenhedloedd Unedig

CYNLLUN STRATEGOL

Ein Hegwyddorion Arweiniol

- Cydraddoldeb i bob person hŷn a'i hawl i gael parch ac urddas.
- Hawl pobl hŷn i gael eu trin yn deg a chyfiawn beth bynnag yw eu hoedran, rhyw, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd ac ati.
- Hawl pobl hŷn i fyw'n annibynnol cyhyd â phosibl, yn ddelfrydol yn eu cartref a'u cymuned eu hunain, ac i gael cymorth priodol a chymesuroi wrth iddynt heneiddio.

Ein Hamcanion

Rhoi llais unedig i bobl hŷn yn y sir ynghylch:

- a) Cynrychioli ac amddiffyn eu buddion mewn meysydd megis gwahaniaethu ar sail oedran, incwm a ffyniant, tai, iechyd a gofal chymdeithasol, trafnidiaeth, diogelwch, dysgu gydol oes, hamdden a llesiant cyffredinol.
- b) Gweithio gyda sefydliadau eraill i wella'r gwasanaethau sydd ar gael ar gyfer pobl hŷn drwy gydlyn ymdrechion pawb yn well.
- c) Hyrwyddo arferion cydweithio'n fwy effeithiol rhwng sefydliadau gwahanol ar gyfer pobl hŷn sydd eisoes yn bodoli, o ran buddiannau a nodau cyffredin
- d) Gwella sianeli cyfathrebu rhwng y sefydliadau ar gyfer pobl hŷn
- e) Hyrwyddo a monitro'r gwaith o weithredu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yn y sir ac, yn arbennig, Cynllun Heneiddio'n Dda Sir Gaerfyrddin a Chynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus).

CYNLLUN STRATEGOL

Ein Gweithrediadau

I ddilyn ei amcanion, bydd y Fforwm yn:

- a) Nodi materion pwysig sy'n peri pryder i bobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n effeithio arny'n nhw neu eu buddiannau.
- b) Mynegi a rhannu'r materion a phryderon hyn â llywodraeth leol a llywodraeth ganolog, asiantaethau a chyrrff eraill a'r cyhoedd fel sy'n briodol.
- c) Cyfathrebu a'i aelodau / sefydliadau sy'n aelodau mewn modd effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth lawn am waith a gweithgareddau'r Fforwm.
- d) Cefnogi gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Hyrwyddwr 50+ Sir Gaerfyrddin ac ati, a chyflwyno sylwadau iddynt
- e) Bod yn rhan o gyrff cenedlaethol sy'n cynrychioli buddion pobl hŷn Cymru e.e. Senedd Pobl Hŷn Cymru a Chynghrair Pobl Hŷn Cymru
- f) Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i nodi bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau a'u llenwi.
- g) Ceisio ymgysylltu â phobl hŷn a'u hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Fforwm
- h) Arwain gwaith y Fforwm drwy Grŵp Llywio cynrychioladol, a gefnogir gan y gwasanaethau ysgrifenyddol a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Strwythur a Phroses Gweithredol

Bydd y Cynllun Strategol yn cael ei ddarparu drwy'r Strwythur Gweithredol canlynol:

1. Grŵp Llywio'r Fforwm 50+
2. Darparu cymorth gweinyddol

CYNLLUN STRATEGOL

3. Is-grwpiau a sefydlir i gyflawni prosiectau a thasgau blaenoriaeth